



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Polisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd

26 Ionawr, 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b> .....	<b>3</b>
<b>Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad</b> .....	<b>3</b>
<b>Crynodeb o'r ymatebion</b> .....	<b>5</b>
Cwestiwn 1: Ein camau gweithredu arfaethedig .....	5
Cwestiwn 1a: A fydd y camau gweithredu rydyn ni'n eu cynnig yn caniatáu i ni wneud hyn? .....	5
Cwestiwn 1b: A oes camau gweithredu ar goll o'r polisi drafft? .....	6
Cwestiwn 1c: A ddylen ni gymryd trywydd gwahanol ar gyfer rhai o'r camau gweithredu hyn? .....	7
Cwestiwn 2: Bwriad y polisi drafft hwn yw llywio rhaglen waith ddeng mlynedd. A oes unrhyw gamau gweithredu dylen ni eu rhoi ar waith cyn rhai eraill? .....	8
Cwestiwn 3: Nodau ein polisi .....	9
Cwestiwn 3a: A yw'r polisi hwn yn rhoi digon o sylw i bob un o'r pedwar nod hyn? .....	9
Cwestiwn 3b: A oes unrhyw nodau eraill y dylen ni dalu sylw iddyn nhw yn y polisi? .....	10
<b>Sgyrsiau â Rhieni</b> .....	<b>10</b>
<b>Casgliad a'r camau nesaf</b> .....	<b>12</b>
<b>Atodiad A - Rhestr ymatebwyr</b> .....	<b>13</b>

## Cyflwyniad

- 1.1. Ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethon ni gyhoeddi ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer y Gymraeg, *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr*. Fel mae teitl y Strategaeth yn ei awgrymu, ry'n ni am weld nifer y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg yn codi i filiwn erbyn y flwyddyn 2050 (o'r nifer a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011, sef 562,000). Mae'r strategaeth hefyd yn rhagweld y bydd canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, yn cynyddu o 10 y cant (yn 2013-15) i 20 y cant erbyn 2050.
- 1.2. Mae'r gwaith o gynyddu cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg mewn teuluoedd yn un o nodau pwysig y Strategaeth.
- 1.3. Ar 11 Chwefror 2020, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (teitl y Gweinidog ar y pryd) ymgynghoriad ar fersiwn drafft o *Bolisi cenedlaethol ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd*.
- 1.4. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am sylwadau ynglŷn â nod y Polisi drafft o:
  - greu rhaglenni newydd i ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u 'plant yn y dyfodol;
  - darparu cyngor a thechnegau ymarferol i deuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg; a
  - chefnogi teuluoedd sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio'r iaith gyda'u plant.
- 1.5. Roedd y cyfnod ymgynghori i fod i redeg am 12 wythnos hyd at 5 Mai 2020 ond oherwydd pandemig COVID-19, cafodd ei ymestyn tan 30 Medi 2020. Hysbyswyd rhanddeiliaid am yr estyniad drwy e-bost.
- 1.6. Roedd modd ymateb i'r ymgynghoriad drwy dair sianel: ar-lein, drwy'r post ac mewn e-bost.
- 1.7. Yn ogystal â gwahodd ymatebion ysgrifenedig drwy'r sianelau a restrir uchod, fe wnaethon ni gynnal sgysiau gyda 2 rhiant. Ry'n ni'n dadansoddi'r ymatebion hyn yn yr adran 'Sgysiau â Rhieni' isod.

## Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

- 2.1. Cawson ni gyfanswm o 42 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Derbyniwyd ymatebion gan unigolion yn ogystal â sefydliadau. Y sefydliadau a ymatebodd oedd awdurdodau lleol, sefydliadau addysg a hyfforddiant, sefydliadau y mae eu gwaith yn ymwneud â phlant a phobl ifanc a sefydliadau y mae eu gwaith yn ymwneud â'r Gymraeg.

- 2.2. Cyflwynwyd ymatebion drwy ffurflen ar-lein. Fe wnaethon ni roi'r dewis hefyd o lenwi'r ffurflen all-lein a'i dychwelyd drwy e-bost. Roedd hi'n bosibl hefyd i ddychwelyd copi caled o'r ffurflen drwy'r post. Ni ddefnyddiodd yr un ymatebydd yr opsiwn o bostio copi caled; e-bostiwyd ymateb 'ffurf rydd' gan dri ymatebydd, oedd heb ddefnyddio ffurflen ymateb yr ymgynghoriad a ddarparwyd gennym.

Tabl 1.1: Dulliau Ymateb

<b>Dulliau Ymateb</b>	<b>Nifer yr ymatebion</b>
Cyflwyno'r ffurflen ar-lein	19
E-bostio'r ffurflen	18
E-bostio ymateb ar ffurf rydd	3
Post	0

- 2.3. Cawsom bedwar ar ddeg yn Gymraeg, tri ar hugain yn Saesneg a thri yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 2.4. Ni atebodd pob ymatebydd y cwestiynau i gyd. Mae hyn wedi'i grynhoi yn nhabl 1.2.

Tabl 1.2: Crynodeb o'r ymatebion o sylwedd a gafwyd i gwestiynau'r ymgynghoriad

<b>Y Cwestiwn Ymgynghori</b>	<b>Nifer yr ymatebion</b>
C.1a	39
C.1b	39
C.1c	35
C.2	37
C.3a	36
C.3b	31

- 2.5. Ni ofynnodd yr ymgynghoriad unrhyw gwestiynau caeedig felly nid oes data meintiol ar gael. Yn ein dadansoddiad, ry'n ni wedi cynnwys yr ymatebion i'r cwestiwn uniongyrchol a ofynnwyd ac rydym hefyd wedi dadansoddi unrhyw ymatebion cyffredinol nad oeddent yn cyfeirio'n uniongyrchol at gwestiynau'r ymgynghoriad ac wedi priodoli'r sylwadau i'r cwestiwn perthnasol. Yn y dadansoddiad, ry'n ni wedi rhoi crynodeb sy'n nodi'r brif farn a fynegwyd ynghyd â safbwyntiau eraill a roddwyd.

## Crynodeb o'r ymatebion

- 3.1. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gawsom yn cefnogi'r polisi a'r camau gweithredu arfaethedig. Cafwyd rhai ymatebion negyddol oedd yn cynnwys sylwadau generig yn erbyn ariannu'r Gymraeg yn ehangach.
- 3.2. Cawsom rai sylwadau hefyd oedd y tu allan i gwmpas y polisi, gan nad oedd eu ffocws wedi'i anelu at drosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu, felly nid ydym wedi eu crynhoi yn yr adroddiad hwn.

**Cwestiwn 1:** Mae'r polisi drafft hwn yn nodi'r camau gweithredu rydyn ni'n eu cynnig i gefnogi a chynyddu trosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd.

**Cwestiwn 1a:** A fydd y camau gweithredu rydyn ni'n eu cynnig yn caniatáu i ni wneud hyn?

- 3.3. Atebodd 39 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 3.4. Ar y cyfan, roedd cytundeb cyffredinol ymhlith yr holl ymatebwyr ar weithredoedd y polisi. Amlygodd y rhan fwyaf o'r ymatebion gamau gweithredu penodol, a oedd yn fwyaf perthnasol i feysydd neu ardaloedd daearyddol arbennig. Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r camau gweithredu ond ychydig o sylwadau a roddwyd amdanynt, a rhoddodd eraill ymateb cynhwysfawr gyda sylwadau mewn perthynas â holl gamau'r polisi.
- 3.5. Er bod yr ymateb i'r polisi a'i weithredoedd yn gadarnhaol ar y cyfan, dywedodd rhai ymatebwyr bod rhai o'r camau gweithredu'n amwys ac felly'n anodd gwneud sylwadau arnynt.  
*'Mae'r camau gweithredu a amlinellwyd yn ymddangos yn synhwyrol ac yn rhesymol. Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo y gallwn roi sylwadau ar eu llwyddiant gan fod y camau gweithredu'n hynod o gyffredinol.'*
- 3.6. Nododd llawer o ymatebwyr bwysigrwydd cysylltu'r polisi'n glir â pholisïau, rhaglenni a phrosiectau eraill Llywodraeth Cymru, yn enwedig y rhai o fewn Cymraeg 2050.
- 3.7. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y ffaith fod angen cynllunio a gweithredu ar lefel leol ac ar lefel genedlaethol, ond dim ond drwy ddatblygu gwybodaeth a thystiolaeth leol y byddai hyn yn bosibl er mwyn caniatáu i gamau gweithredu gael eu teilwra i gymunedau.
- 3.8. Soniodd nifer o ymatebwyr fod angen gwneud ymchwil am fod hynny'n ffactor pwysig er mwyn i'r polisi lwyddo ac er mwyn cyflawni'r camau gweithredu.

Teimlai rhai bod sicrhau ymchwil cynhwysfawr newydd a chyfredol yn flaenoriaeth a bod angen i ni gael gwell dealltwriaeth o broblemau, rhwystrau a chyflleoedd. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd dysgu gan wledydd eraill sydd â sefyllfaoedd cymdeithasol-ieithyddol y gellir eu cymharu â sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru.

- 3.9. Cafwyd cefnogaeth i gamau gweithredu sy'n canolbwyntio ar rieni/gofalwyr, yn enwedig mewn perthynas â gwella eu sgiliau iaith a'u dealltwriaeth o bwysigrwydd siarad Cymraeg gyda'u plant cyn iddynt fynd i'r ysgol.
- 3.10. Tynnwyd sylw hefyd at bwysigrwydd cynnwys teuluoedd y plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn enwedig plant a phobl ifanc fyddar.
- 3.11. Dywedodd rhai o'r sefydliadau a ymatebodd y gallai eu rhaglenni a'u prosiectau hwy gyfrannu at gamau gweithredu penodol. Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod cydweithredu'n allweddol i lwyddiant llawer o'r camau gweithredu.
- 3.12. Ar lefel leol, cynigiodd rhai sefydliadau ymateb o safbwynt lleol ac roeddent yn awyddus i gydweithredu ar dreialu ymyriadau yn eu hardaloedd lleol.
- 3.13. Roedd sylwadau eraill ynghylch llwyddiant tebygol y camau gweithredu arfaethedig yn amlygu pwysigrwydd sicrhau adnoddau digonol i'w cyflawni; ansawdd eu gweithrediad; parodrwydd pobl i ymgysylltu; a marchnata a chyfathrebu.

### Cwestiwn 1b: A oes camau gweithredu ar goll o'r polisi drafft?

- 3.14. Atebodd 39 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 3.15. Cafwyd ffocws cryf ar bwysigrwydd cyfnod y blynyddoedd cynnar wrth ffurfio ymddygiadau o ran trosglwyddo iaith. Er enghraifft, pwysleisiodd ymatebwyr *'bwysigrwydd y rôl a chwaraeir gan y sector blynyddoedd cynnar i weithredu'r polisi'n llwyddiannus drwy ddatblygu sgiliau Cymraeg plant o'r crud a chefnogi rhieni drwy ddefnyddio strategaethau amrywiol sy'n rhoi cymorth iddynt ddefnyddio'r iaith yn y cartref.'*
- 3.16. Tynnodd ymatebwyr eraill sylw at yr angen i ganolbwyntio mwy ar weithlu'r blynyddoedd cynnar, gan gynnwys gwarchodwyr plant a'u rôl yn cefnogi teuluoedd i drosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf.
- 3.17. Awgrymodd rhai ymatebwyr hefyd gamau gweithredu sy'n targedu rhieni yn ystod y cyfnod cyn geni a rôl bosibl bydwagedd ac ymwelwyr ieched o ran annog teuluoedd i siarad Cymraeg â'u plant.

- 3.18. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr angen am gam gweithredu sy'n mynd i'r afael â rôl hanfodol y teulu estynedig wrth drosglwyddo iaith. Yn benodol, rôl neiniau a theidiau sy'n siarad Cymraeg a oedd yn aml yn cyflawni dyletswyddau gofal plant anffurfiol tra bo'r rhieni yn y gwaith.
- 3.19. Holodd rhai ymatebwyr a oedd llais y plentyn yn ddigon canolog o fewn y camau gweithredu yn y Polisi drafft gan ddweud bod angen camau gweithredu a oedd yn canolbwyntio ar rôl plant a phobl ifanc a'u '*potensial i newid arferion ieithyddol eu teulu.*'
- 3.20. Hoffai rhai ymatebwyr weld mwy o ffocws ar dechnoleg, h.y. buddsoddi mewn adnoddau a chynnwys digidol i rieni a phlant er mwyn cefnogi trosglwyddo iaith yn y cartref. Nodwyd hefyd bod angen ystyried '*rôl y cyfryngau, a'r cyfryngau cymdeithasol yn benodol, wrth rannu negeseuon*' i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar yr aelwyd.
- 3.21. Yn debyg i'r ymatebion i gwestiwn 1a, roedd yr ymatebwyr yn pwysleisio pwysigrwydd ymchwil manwl, cyllid digonol yn ogystal â marchnata.

### Cwestiwn 1c: A ddylen ni gymryd trywydd gwahanol ar gyfer rhai o'r camau gweithredu hyn?

- 3.22. Atebodd 35 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 3.23. Mae llawer o ymatebwyr o'r farn bod angen ystyried camau gweithredu sy'n ymwneud ag ymchwil mewn gwahanol ffyrdd. Mae cyfeiriadau at ymchwil yn cynnwys deall y rhesymau dros beidio â throsglwyddo'r iaith; datblygu'r Gymraeg a'r arferion gorau ar gyfer cefnogi dysgu a defnyddio'r Gymraeg; a'r hyn y cyfeiriodd ymatebwyr ato fel 'manteision' trochi yn y Gymraeg a dwyieithrwydd. Roedd rhai ymatebwyr hefyd yn cynnwys sylwadau cyffredinol am yr angen i wneud ymchwil i rai o gamau gweithredu'r Polisi drafft. Roeddent hefyd yn pwysleisio canfod y cydbwysedd priodol rhwng ymchwil, cydweithredu a datblygu cynlluniau ac ymyriadau.
- 3.24. Elfen arall roedden nhw'n ei hystyried yn bwysig oedd cynnwys cysylltiadau â strategaethau eraill sy'n cefnogi nodau cyffredinol y Polisi. Byddai hynny'n cynnwys cyfeiriadau penodol at gynnal a datblygu'r prosiectau a'r rhaglenni sydd eisoes yn cyfrannu at amcanion y polisi.
- 3.25. Pwysleisiodd rhai o'r ymatebwyr fod angen dilyn yr ymgynghoriad gyda phwyntiau gweithredu mwy cadarn a thargedau mwy eglur o fewn y polisi.

- 3.26. Pwysleisiodd ymatebwyr eu barn hefyd y dylid meithrin ymwybyddiaeth cyn-geni o ddwyieithrwydd er mwyn sicrhau ymyrraeth effeithiol i hyrwyddo trosglwyddo'r iaith o fewn y teulu o oedran cynnar.
- 3.27. Soniodd ymatebwyr am y canlynol hefyd:
- trafod trosglwyddo iaith gyda phlant yn yr ysgol;
  - gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu; ac,
  - ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth cenedlaethol.

**Cwestiwn 2: Bwriad y polisi drafft hwn yw llywio rhaglen waith ddeng mlynedd. A oes unrhyw gamau gweithredu dylen ni eu rhoi ar waith cyn rhai eraill?**

- 3.28. Atebodd 37 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 3.29. Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn yn cefnogi'r polisi cyfan. Fodd bynnag, atebodd rhai ymatebwyr yn negyddol, gan ddweud nad oeddent am i'r polisi gael ei weithredu gan eu bod yn credu nad oedd yn cynrychioli'r 80% o drigolion Cymru nad ydynt ar hyn o bryd yn siarad Cymraeg.
- 3.30. Ar yr un pryd, roedd sawl ymateb yn ystyried goblygiadau pandemig COVID-19 ac roedd rhai'n awgrymu y gellid defnyddio arferion gorau o'r gwersi a ddysgwyd o'r cyfnod hwn, er enghraifft defnyddio technoleg yn effeithiol i gael sesiynau a phrosiectau sy'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb fel arfer.
- 3.31. Roedd sawl ymatebydd yn cytuno bod angen blaenoriaethu ymchwil yn ogystal â sefydlu Bwrdd Rhaglen i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r polisi. Roedd eraill yn cefnogi'r nod hwn drwy nodi bod angen monitro rheolaidd. *'Bydd angen pennu cerrig milltir ar gyfer y cyfnod hwn yn ogystal â monitro, asesu ac adolygu rheolaidd.'*
- 3.32. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at ddysgu gwersi o wledydd eraill, yn enwedig esiampl Euskaraldia o Wlad y Basg (a oedd wedi ei nodi fel prosiect y gellir ei efelychu yma yng Nghymru). Roeddent yn teimlo y dylid gweithredu hyn cyn camau eraill.
- 3.33. Dywedodd llawer o ymatebwyr yr hoffent weld buddsoddiad mewn grwpiau sy'n bodoli eisoes megis grwpiau Cymraeg i Blant a grwpiau chwarae cyfrwng Cymraeg.
- 3.34. Mae un ymatebydd yn nodi y dylid *'gweithredu'r polisi'n llwyddiannus drwy ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg gyda phlant o'u genedigaeth'* ac roedd eraill yn cytuno â hyn am eu bod yn awgrymu y dylid gwneud gweithio gyda'r maes



gofal cyn geni yn flaenoriaeth. Dylid hefyd ystyried plant sydd ag anghenion ychwanegol.

- 3.35. Hoffai rhai ymatebwyr gael ymgyrch genedlaethol i annog pobl i gymryd rhan mewn ymyriadau i weithredu'r polisi tra bo eraill yn teimlo y byddai ymgyrch fwy hyperlleol yn fuddiol. Cafwyd sylw cyffredinol y byddai canolbwyntio ar un nod ar y tro yn ddoeth tra awgrymwyd hefyd y dylid canolbwyntio ar y nod 'hawsaf' yn gyntaf.
- 3.36. Presenoldeb ar-lein cryf i ryngweithio â rhieni oedd un o'r camau allweddol yr oedd ymatebwyr am ei flaenoriaethu. Nodwyd yn y sylwadau cyffredinol eu bod am weld adolygiadau pellach o ymyriadau cyffredol, yn ogystal â defnyddio adnoddau addysgol i hyrwyddo nodau'r polisi.

### Cwestiwn 3: Rydyn ni wedi seilio'r polisi drafft hwn ar ein dymuniad i:

- i. Ysbrydoli plant a phobl ifanc i siarad Cymraeg gyda'u plant nhw yn y dyfodol.
- ii. Ailgyynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sydd wedi colli hyder yn eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain.
- iii. Cefnogi ac annog y defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd lle nad yw pawb yn siarad Cymraeg.
- iv. Cefnogi teuluoedd Cymraeg eu hiaith i siarad Cymraeg gyda'u plant.

### Cwestiwn 3a: A yw'r polisi hwn yn rhoi digon o sylw i bob un o'r pedwar nod hyn?

- 3.37. Atebodd 36 o ymatebwyr y cwestiwn hwn
- 3.38. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod y polisi'n rhoi digon o sylw i'r pedwar nod hyn. Nododd rhai ymatebwyr eu cytundeb heb unrhyw sylw tra bo eraill wedi gofyn am eglurhad pellach ar rai o'r pwyntiau. Roedd nifer fach o ymatebwyr yn dweud nad oeddent am i'r polisi cael ei weithredu o gwbl.
- 3.39. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr y dylid rhoi mwy o sylw i nod *ii* ac y dylid rhoi pwyslais ar fentrau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed i barhau i ddefnyddio eu Cymraeg ar ôl iddynt adael yr ysgol. Roedd ymatebion eraill yn cynnwys yr angen i weld pwyslais ar y gymuned a'r blynyddoedd cynnar.
- 3.40. Cynigiodd rhai ymatebwyr atebion oedd yn galw am ddull gweithredu cenedlaethol, ac roeddent yn awgrymu y dylid defnyddio rhai mentrau sy'n bodoli eisoes - yn amodol ar gyllid. Roedd eraill am weld dull mwy lleol. Cynigiodd un ymatebydd y byddai modd i'w sefydliad fod yn gartref ar gyfer

prosiectau peilot, gan nodi eu bod yn teimlo bod eu darpariaeth leol yn annigonol ar hyn o bryd yn eu barn hwy.

- 3.41. Roedd ymatebwyr eraill yn cytuno â nodau'r Polisi drafft ond roeddent hefyd yn awgrymu syniadau pellach, megis tynnu sylw at yr adnoddau sydd ar gael - fel technoleg.

### Cwestiwn 3b: A oes unrhyw nodau eraill y dylen ni dalu sylw iddyn nhw yn y polisi?

- 3.42. Atebodd 31 o ymatebwyr y cwestiwn hwn.
- 3.43. Teimlai llawer fod angen symleiddio geiriad y polisi er mwyn taro deuddeg gyda'r gynulleidfa darged yn ogystal â chyfleu negeseuon cryf i'r cyhoedd pan weithredir y polisi.
- 3.44. Pwysleisiodd sawl ymateb bwysigrwydd sicrhau bod y polisi'n cyd-fynd â strategaethau a pholisïau eraill sy'n bodoli eisoes.
- 3.45. Awgrymodd amryw o ymatebwyr fod angen canolbwyntio ar weithio gyda theuluoedd, drwy atgyfnerthu rhwydweithiau sefydledig o grwpiau sy'n bodoli eisoes. Nododd un sefydliad, er enghraifft, ei bod hi'n bwysig gweithio gyda theuluoedd lle defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg yn y cartref. Roedd eraill am weld nod penodol i gefnogi'r rheini sy'n symud i Gymru.
- 3.46. Canolbwyntiodd nifer o ymatebwyr ar yr angen am y polisi, ac roeddent eisïau gweld ymchwil yn digwydd i ganfod pam nad yw'r Gymraeg yn cael ei throsglwyddo. Roedd ymatebwyr eraill am gael amserlen glir ar gyfer gweithredu'r nodau.
- 3.47. Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at enghreifftiau o arferion gorau o wledydd eraill.

### Sgyrsiau â Rhieni

- 4.1. Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyhoeddus a ddadansoddwyd uchod, fe wnaethom gomisiynu cwmni Ymchwil Arad i gynnal sgysrsiau gyda rhieni. Cafwyd sgysrsiau gyda 12 aelod o'r cyhoedd sy'n rhieni. Pwrpas y sgysrsiau hyn oedd gofyn barn rhieni ar y pwyntiau gweithredu o fewn y Polisi.
- 4.2. Cafwyd ymateb cymysg i'r syniad o annog pobl i ddechrau sgysrsiau yn Gymraeg gyda rhai o'r rhieni ddim yn gweld y syniad hwn yn berthnasol i'w sefyllfa ac yn fwy addas i rai sydd wrthi'n dysgu Cymraeg. Nododd rhai hefyd

fod angen i'r awydd ddod gan y teulu yn hytrach nag anogaeth gan y llywodraeth.

- 4.3. Teimlai un rhiant y byddai'r syniad o annog pobl i addo dechrau pob sgwrs yn Gymraeg am wythnos neu ddwy yn elwa o gael eu cynnal mewn ysgolion. *'Tie it in with the schools, it would be a massive help for the schools. Even though I work in a Welsh school the pupils speak English constantly so a week like this would be good.'*
- 4.4. Adleisiwyd hyn yn ymateb cadarnhaol rhieni i'r syniad o ddarparu sgiliau a deunyddiau i athrawon i'w helpu i annog plant i ddefnyddio mwy o Gymraeg gyda'i gilydd yn yr ysgol, yn enwedig i rieni sy'n dysgu Cymraeg.
- 4.5. Cafwyd ymateb da i'r syniad o ddarparu cyngor a syniadau ymarferol i deuluoedd i'w helpu i ddefnyddio mwy o Gymraeg ym mhob math o sefyllfaoedd teuluol. Fe'i gwelwyd fel y syniad mwyaf ymarferol a naturiol gyda defnyddioldeb caneuon, geiriau allweddol ac ymadroddion yn cael eu hamlygu. Roedd gweithgareddau hwyl a gemau i'r teulu cyfan yn cael eu hystyried yn ffyrdd da o ddefnyddio mwy o Gymraeg, yn enwedig gyda phlant iau. *'When my two were little they'd struggle with Welsh reading so we'd have a competition with reading Welsh road signs and that really helped, and it was the same with us playing darts in Welsh. I think that if there's a fun activity that's where they pick it up the most.'*
- 4.6. Awgrymodd pum rhiant fod angen i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ystod ehangach o sianeli er mwyn helpu teuluoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Nid oedd rhai rhieni'n ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt, yn enwedig ar lefel leol. Er bod ymatebwyr yn gweld defnyddio cyfryngau cymdeithasol a theledu fel sianeli cyfathrebu effeithiol, roeddent yn cydnabod nad yw pob rhiant yn eu defnyddio. Yn ogystal, fe wnaethant bwysleisio effeithiolrwydd cyfathrebu wyneb yn wyneb.
- 4.7. O ran beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i annog defnydd o'r Gymraeg mewn teuluoedd, awgrymodd nifer o rieni fod angen mwy o adnoddau. Roedd yr awgrymiadau hyn yn cynnwys yr angen am adnoddau Cymraeg mwy modern o ansawdd gan gynnwys llyfrau ac adnoddau digidol, yn enwedig ar gyfer plant hŷn; *'Mae bwloch mawr yn y ddarpariaeth digidol i blant ar ôl oedran Cyw. Does dim byd ar gael iddyn nhw yn y Gymraeg.'* Tynnodd rhieni sylw hefyd at yr angen i hyrwyddo mwy o ddeunyddiau ac apiau cyfredol ar gyfer dysgu Cymraeg.

- 4.8. Rhoddwyd pwyslais ar gyrsiau Cymraeg, yn enwedig yr angen am ddosbarthiadau am ddim gyda'r nos, gan gynnwys dosbarthiadau y gallai rhieni a'u plant eu mynychu i ddysgu gyda'i gilydd. Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo bod diffyg cyrsiau Cymraeg ar gael.

## Casgliad a'r camau nesaf

Mae Llywodraeth Cymru'n ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a roddodd o'u hamser i wneud hynny. Ry'n ni wedi defnyddio'r ymatebion i helpu i lywio fersiwn derfynol y Polisi. Mae modd i chi ddarllen y Polisi ar ein gwefan.

## Atodiad A - Rhestr ymatebwyr

<b>Cyf.</b>	<b>Ymatebydd</b>	<b>Sefydliad</b>
001	Gwyn Jones	
002	Ymateb dyblyg	
003	Meilyr Rowlands	Estyn
004	Danielle Gazi	Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
005	Ymateb anhysbys	
006	Ymateb anhysbys	
007	Andrew Jenkins	
008	Michael Miles	
009	Ymateb anhysbys	
010	Ymateb anhysbys	
011	Myfanwy Jones	Cyngor Sir Gaerfyrddin
012	Efa Gruffudd Jones	Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol
013	Ruth Richards	Dyfodol i'r Iaith
014	Sian Eirug	Cyngor Gwynedd
015	David Goodger	Blynyddoedd Cynnar Cymru
016	Angharad Morgan / Eleri Griffiths	Mudiad Meithrin
017	Gemma Halliday	Gofal Cymdeithasol Cymru
018	Fiona Mocko	Cyngor Sir Y Fflint
019	Iñaki Arruti Landa	Cyngor Tref Lasarte-Oria
020	Gwenllian Mair Williams	Uned Iaith a Chraffu Cyngor Gwynedd
021	Jane O'Toole	Clybiau Plant Cymru
022	Manon Humphreys	Amgueddfa Cymru
023	Dr Ifor Gruffydd	Dysgu Cymraeg - Gogledd-Orllewin
024	Ymateb anhysbys	

<b>Cyf.</b>	<b>Ymatebydd</b>	<b>Sefydliad</b>
025	Ymateb anhysbys	
026	Ymateb anhysbys	
027	Carys Morgan / Non Davies	Cyngor Sir Ceredigion
028	Peter Minett	
029	Michael John Miles	
030	Eifion M Jones	
031	Ymateb anhysbys	
032	Ymateb anhysbys	
033	Lisa Newall	North Wales Training
034	Beñat Garaio Mendizabal	University of the Basque Country
035	Nia Angharad	
036	Bethan Dixon / Kathryn Seeney	Dechrau'n Deg - Ynys Môn
037	Aled Davies	Comisiynydd y Gymraeg
038	Nia Thomas	Partneriaeth Cymraeg i Deuluoedd Môn
039	Hanna Huws	Menter Iaith Môn
040	Eisiau cadw ymateb yn anhysbys	
041	Iwan Hywel	Mentrau Iaith Cymru
042	Mabli Jones	Cymdeithas yr Iaith